Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
ar
Gyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2006. Fe'u trafodwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth a gytunwyd gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, lle y bydd yr Aelodau'n nodi ymlaen llaw unrhyw gwestiynau sydd ganddynt neu unrhyw welliannau y dymunant eu gwneud i'r Gorchymyn.

Cynigiwyd dau welliant.

Gwelliant 1 - cynigiwyd gan Helen Mary Jones AC

Yn rhan 2(e) rhoi ar ôl 'available':
"in Welsh and English"

Roedd y gwelliant wedi'i gynnig gan fod Cynlluniau Iaith Gymraeg rhai o Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u llunio ers cryn amser ac roedd teimlad y dylid sôn yn benodol yn y ddeddfwriaeth am yr angen am ddarparu adroddiadau'n ddwyieithog. Atebodd y Prif Weinidog mai diystyru Cynlluniau Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaethau a wnai'r gwelliant ac nid oedd ef felly yn derbyn y gwelliant.

Pleidleisiodd y Pwyllgor a threchwyd gwelliant 1 o bum pleidlais i ddwy.

Gwelliant 2 - cynigiwyd gan Jenny Randerson AC

Rhoi, ym mharagraff 2 ac ym mharagraff 3 ill dau, is-baragraff newydd (f) sy'n darllen:

"to take steps to promote improvements in cleaning, hygiene and infection management and to increase awareness of the impact of cleaning, hygiene and infection management on infection rates".

Cytunodd y Gweinidog ag egwyddor y gwelliant, ond dywedodd y byddai angen geirio hwnnw'n briodol. Tynnwyd y gwelliant yn ei ôl ar y ddealltwriaeth y byddai ysbryd y gwelliant yn cael ei adlewyrchu wrth ddrafftio.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd